OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2929 (Cy.258)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *10 Tachwedd 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *12 Tachwedd 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 60, 140(4) a 143(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi(**1**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dirymu

**2.** Dirymir Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2008(**2**).

### Diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**3**) fel a ganlyn parthed blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009.

(2) Yn lle atodlen 4, rhoddir yr atodlen a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p.41. Cafodd y pwerau hyn eu datganoli, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2008/2838 (Cy. 252).

(**3**) O.S. 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (W.47), 2000/3382 (W.220), 2001/3910 (W.322), 2002/3054 (W.289), 2003/3211 (W.304), 2004/3232 (W.280), 2005/3345 (W.259), 2006/3347 (W.307) a 2007/3343 (W.295).

*Brian Gibbons*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

10 Tachwedd 2008

YR ATODLEN

Rheoliad 3

"SCHEDULE 4

ADULT POPULATION FIGURES

| **Billing authority area** | **Prescribed figure** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 54,000 |
| Bridgend | 104,800 |
| Caerphilly | 132,600 |
| Carmarthenshire | 141,700 |
| Cardiff | 253,600 |
| Ceredigion | 64,000 |
| Conwy | 89,200 |
| Denbighshire | 76,800 |
| Flintshire | 117,800 |
| Gwynedd | 94,000 |
| Isle of Anglesey | 54,700 |
| Merthyr Tydfil | 43,100 |
| Monmouthshire | 69,100 |
| Neath Port Talbot | 108,400 |
| Newport | 107,400 |
| Pembrokeshire | 92,200 |
| Powys | 104,600 |
| Rhondda Cynon Taf | 182,400 |
| Swansea | 182,200 |
| Torfaen | 70,800 |
| Vale of Glamorgan (The) | 95,900 |
| Wrexham | 103,700" |

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992"). Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2008.

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd yn lle'r un bresennol (Ffigurau Poblogaeth Oedolion).